**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

10 Ionawr 2024

Annwyl Paul

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid i osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) 2024.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: https://senedd.cymru/media/xg4j0gcv/ws-ld16248-w.pdf

Gwnaed y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio pwerau yn

1. paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011;
2. Erthyglau 144(6) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (UE) 2017/625 a pharagraffau 2 a 3 o Atodiad 6 i'r Rheoliadau hynny.

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn ar ôl i Fodel Gweithredu Targed y Ffin (TOM) gael ei gyhoeddi. Yr offeryn statudol hwn fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) o 31 Ionawr 2024 ymlaen. Pwrpas yr OS yw cyflwyno ardystiadau iechyd wrth fewnforio cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion canolig eu risg, a bwyd a bwyd anifeiliaid uchel eu risg nad ydynt yn dod o anifeiliaid, o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r newid hwn yn cynnwys diwygiad i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd hefyd yn dileu'r esemptiad rhag-hysbysu ar gyfer nwyddau o ynys Iwerddon sy’n gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion canolig eu risg. Yn ogystal, bydd yn diwygio dyddiad terfynu’r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP), o 31 Ionawr 2024 tan 29 Ebrill 2024 er mwyn i ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin fedru dechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen. Nid ydym wedi cytuno eto ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforion o Iwerddon, felly rwy'n rhagweld y bydd angen estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol unwaith yn rhagor, o ddiwedd mis Ebrill tan ddyddiad y cytunir arno.

Defnyddiwyd y weithdrefn negyddol ar gyfer yr Offeryn Statudol, cafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 9 Ionawr 2024, a bydd yn dod i rym ar 30 Ionawr 2024.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ond er hynny, o dan rai amgylchiadau, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny.

Mae'r newid i Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011 yn adlewyrchu'r newid a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Rheoliadau cyfatebol yn yr Alban a Lloegr, er mwyn creu un diwygiad, hygyrch a dwyieithog. Y tro hwn, felly, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd modd rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Pwyllgor gan fod yr offeryn statudol wedi dod i law yn ystod y toriad.

Rwy'n anfon llythyr tebyg at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**